

2013 Rhif (Cy.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A4076
(Cilfan Dredgeman Hill, i'r De o
Hwlffordd, Sir Benfro)
(Gwaharddiad a Chyfyngiad ar
Aros) 2013

Gwnaed 7 Awst 2013

Yn dod i rym 8 Awst 2013

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Hwlffordd i Aberdaugleddau (yr A4076) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “y gefnffordd”), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 1(1), 2(1) a (2) a 4(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984⁽¹⁾ (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “Deddf 1984”), a phob pŵer galluogi arall, ac wedi ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys, yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:-

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 8 Awst 2013, a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4076 (Cilfan Dredgeman Hill, i'r de o Hwlffordd, Sir Benfro) (Gwaharddiad a Chyfyngiad ar Aros) 201-.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn –

mae i “bathodyn person anabl” (“*disabled person's badge*”) yr ystyr a roddir yn Rheoliad 2 o Reoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000⁽²⁾;

mae i “disg barcio” (“*parking disc*”) yr ystyr a roddir yn Rheoliad 8(5) o Reoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Leol (Esemptiadau ar gyfer Personau Anabl) (Cymru) 2000⁽³⁾.

(2) At ddiben y Gorchymyn hwn bernir bod cerbyd yn arddangos:

- (i) bathodyn person anabl yn y lle perthnasol:-
 - (a) os yw'r bathodyn, yn achos cerbyd ac iddo banel deialau neu ddangosfwrdd, yn cael ei arddangos fel bod tu blaen y bathodyn yn gwbl ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd; neu
 - (b) os yw'r bathodyn, yn achos cerbyd sydd heb banel deialau na dangosfwrdd, yn cael ei arddangos mewn lle amlwg yn y cerbyd neu arno fel bod tu blaen y bathodyn yn gwbl ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd; a
- (ii) disg barcio yn y lle perthnasol:-
 - (a) os yw'r ddisg, yn achos cerbyd ac iddo banel deialau neu ddangosfwrdd, yn cael ei arddangos fel bod y cyfnod o chwarter awr pryd y cychwynnodd y cyfnod aros yn gwbl ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd; neu
 - (b) os yw'r ddisg, yn achos cerbyd sydd heb banel deialau na dangosfwrdd, yn cael ei arddangos mewn lle amlwg yn y cerbyd neu arno fel bod y cyfnod o chwarter awr pryd y cychwynnodd y cyfnod aros yn gwbl ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd.

(3) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiad a Chyfyngiad

3. Ac eithrio fel y darperir yn erthyglau 5(1) a 5(2), ni chaiff neb, heblaw yn ôl cyfarwyddyd neu gyda chaniatâd heddw, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar unrhyw ddarnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

4. Ac eithrio fel y darperir yn erthyglau 5(1) a 5(2), ni chaiff neb, heblaw yn ôl cyfarwyddyd neu gyda chaniatâd heddw, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 rhwng 08:00 o'r gloch a 18:00 o'r gloch unrhyw ddiwrnod am gyfnod sy'n fwy nag awr mewn unrhyw gyfnod o dair awr.

Cymhwyso

5. (1) Ni fydd dim yn erthyglau 3 na 4 yn ei gwneud yn anghyfreithlon i beri neu ganiatáu i unrhyw gerbyd

aros yn y darnau o'r gefnffordd y cyfeirir atynt ynddynt cyhyd ag y bo angen er mwyn galluogi:-

- (a) i berson fynd i mewn i gerbyd neu allan o gerbyd;
- (b) i nwyddau gael eu llwytho ar y cerbyd neu eu dadlwytho ohono;
- (c) i'r cerbyd, os na ellir ei ddefnyddio'n hwylus at ddiben o'r fath ar unrhyw ffordd arall, gael ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag unrhyw un o'r gweithrediadau a ganlyn, sef: -
 - (i) gwaith adeiladu, gwaith diwydiannol neu waith dymchwel;
 - (ii) symud unrhyw rwystr i draffig;
 - (iii) cynnal a chadw, gwella neu ailadeiladu'r darnau o'r gefnffordd; neu
 - (iv) gosod, codi, addasu neu atgyweirio yn y darnau o'r gefnffordd, neu mewn tir cyfagos, unrhyw garthffos neu unrhyw brif bibell, pibell neu gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan neu unrhyw linell delegraffig fel y'i diffinnir yn Neddf Cyfathrebiadau 2003(4);
- (a) y cerbyd i gael ei ddefnyddio i wasanaethu awdurdod lleol neu awdurdod dŵr yn unol â phwerau neu ddyletswyddau statudol;
- (b) y cerbyd i gael petrol, olew, dŵr neu aer o unrhyw garej ar y darnau o'r gefnffordd neu'n gyfagos iddynt;
- (c) y cerbyd i gael ei ddefnyddio at ddibenion y frigâd dân, y gwasanaeth ambiwlans neu'r heddlu; neu
- (d) y cerbyd yn stopio pan fo'r person sy'n ei reoli:
 - (i) yn gorfod stopio yn ôl y gyfraith;
 - (ii) yn gorfod stopio er mwyn osgoi damwain; neu
 - (iii) yn cael ei atal rhag mynd yn ei flaen gan amgylchiadau y tu hwnt i'w reolaeth.
- (2) Ni fydd dim yn erthyglau 3 na 4 yn ei gwneud yn anghyfreithlon i beri neu ganiatáu i gerbyd person anabl sy'n dangos yn y lle perthnasol fathodyn person anabl a disg barcio (y mae'r gyrrwr, neu berson arall sy'n gyfrifol am y cerbyd, wedi nodi arno yr amser pryd y cychwynnodd y cyfnod aros) i aros ar unrhyw ochr o'r darnau o'r gefnffordd y cyfeirir atynt am gyfnod nad yw'n fwy na thair awr, gydag awr o leiaf yn gwahanu'r cyfnod hwnnw a chyfnod blaenorol yr

bu'r un cerbyd yn aros ar yr un diwrnod ar unrhyw un o ochrau'r darnau penodedig o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 1 a 2.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 7 Awst 2013

R MORGAN

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 84(2) gan adran 168 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22) a pharagraff 61 o Atodlen 8 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(2) O.S. 2000/1786

(3) O.S. 2000/1785

(4) 2003 p. 21

YR ATODLENNI

Darnau o Gefnffordd yr A4076 yng Nghilfan Dredgeman Hill, i'r De o Hwlffordd, yn Sir Benfro

ATODLEN 1

Gwahardd aros ar unrhyw adeg

1. Y darn hwnnw ar ochr ddwyreiniol y gilfan, sy'n ymestyn o bwynt wrth fynedfa ogleddol y gilfan lle y mae'n ymuno â'r gefnffordd, tua'r de am bellter o 47 o fetrau.
2. Y darn hwnnw o ochr ddwyreiniol y gilfan, sy'n ymestyn o bwynt 98 o fetrau i'r de o fynedfa ogleddol y gilfan, tua'r de am bellter o 94 o fetrau hyd at bwynt wrth fynedfa ddeheuol y gilfan lle y mae'n ymuno â'r gefnffordd.
3. Y darn hwnnw o ochr ddwyreiniol y gilfan sy'n ymestyn o bwynt wrth fynedfa ogleddol y gilfan lle y mae'n ymuno â'r gefnffordd, tua'r de am bellter o 91 o fetrau hyd at bwynt wrth fynedfa ddeheuol y gilfan lle y mae'n ymuno â'r gefnffordd.

ATODLEN 2

Cyfyngir y cyfnod aros i awr yn unrhyw gyfnod o dair awr rhwng 08:00 o'r gloch a 18:00 o'r gloch unrhyw ddiwrnod.

Y darn hwnnw o ochr ddwyreiniol y gilfan, sy'n ymestyn o bwynt 47 o fetrau i'r de o fynedfa ogleddol y gilfan, tua'r de am bellter o 51 o fetrau.

GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A4076 (CILFAN DREDGEMAN HILL, I'R DE O HWLFFORDD, SIR BENFRO) (GWAHARDDIAD A CHYFYNGIAD AR AROS) 2013

HYSBYSIR DRWY HYN fod Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adrannau 1(1), 2(1) a (2) a 4(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, a daw i rym ar 8 Awst 2013.

Effaith y Gorchymyn fydd gwahardd aros a chyfyngu ar aros (gyda rhai esemptiadau) ar y darnau o Gefnffordd yr A4076 Hwlffordd i Aberdaugleddau (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd") yng Nghilfan Dredgeman Hill, i'r de o Hwlffordd, yn Sir Benfro fel y pennir yn yr Atodlenni i'r Hysbysiad hwn.

Yn ystod cyfnod o 6 wythnos o 7 Awst 2013, gellir gweld copi o'r Gorchymyn arfaethedig, ynghyd â phlan a datganiad o'r rhesymau dros wneud y Gorchymyn, yn ystod oriau swyddfa arferol yng Nghyngor Sir Benfro, Neuadd y Sir, Hwlffordd, Sir Benfro SA61 1TP, neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim oddi wrth y cyfeiriad isod drwy ddyfynnu'r cyfeirnod qA1063569/1.

Os yw unrhyw berson yn dymuno cwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn, neu unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo, ar y seiliau:

- a. nad yw o fewn pwerau perthnasol Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984; neu
- b. na chydymffurfïwyd ag unrhyw ofyniad perthnasol,

caiff y person hwnnw, o fewn chwe wythnos i 7 Awst 2013, wneud cais i'r Uchel Lys i atal dros dro neu i ddiddymu'r Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru yn

www.cymru.gov.uk (detholer: Deddfwriaeth/ Is-Ddeddfwriaeth/ Offerynnau Statudol Lleol/ Gorchmynion Traffig Parhaol/2013).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

YR ATODLENNI

Darnau o Gefnffordd yr A4076 yng Nghilfan Dredgeman Hill, i'r de o Hwlfordd, yn Sir Benfro

ATODLEN 1

Gwahardd aros ar unrhyw adeg

1. Y darn hwnnw ar ochr ddwyreiniol y gilfan, sy'n ymestyn o bwynt wrth fynedfa ogleddol y gilfan lle y mae'n ymuno â'r gefnffordd, tua'r de am bellter o 47 o fetrau.
2. Y darn hwnnw o ochr ddwyreiniol y gilfan, sy'n ymestyn o bwynt 98 o fetrau i'r de o fynedfa ogleddol y gilfan, tua'r de am bellter o 94 o fetrau hyd at bwynt wrth fynedfa ddeheuol y gilfan lle y mae'n ymuno â'r gefnffordd.
3. Y darn hwnnw o ochr ddwyreiniol y gilfan sy'n ymestyn o bwynt wrth fynedfa ogleddol y gilfan lle y mae'n ymuno â'r gefnffordd, tua'r de am bellter o 91 o fetrau hyd at bwynt wrth fynedfa ddeheuol y gilfan lle y mae'n ymuno â'r gefnffordd.

ATODLEN 2

Cyfyngir y cyfnod aros i awr yn unrhyw gyfnod o dair awr rhwng 08:00 o'r gloch a 18:00 o'r gloch unrhyw ddiwrnod

Y darn hwnnw o ochr ddwyreiniol y gilfan, sy'n ymestyn o bwynt 47 o fetrau i'r de o fynedfa ogleddol y gilfan, tua'r de am bellter o 51 o fetrau.